CYFRES B2

# amserbeibl

Gwersi o’r Beibl – Safon 3



Cofiwch roi eich enw a’ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o’r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Ioan 2: 1-11



ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 2: 11

## Gwers 1 Gwyrthiau – Troi'r Dŵr yn Win

Ydych chi wedi bod mewn priodas erioed? Os ydych chi, fe fyddwch wedi mwynhau gwisgo'ch dillad gorau, gweld y briodasferch a'r priodfab a mwynhau pryd o fwyd blasus. Mae priodas yn achlysur arbennig iawn. Mae’n cael ei threfnu’n ofalus ymlaen llaw ac mae pawb eisiau sicrhau ei fod yn ddiwrnod i’w gofio.



**C Lle cafodd y briodas yn Ioan 2 ei chynnal?**

1

**C Ar y rhestr hon rhowch enwau rhai o’r bobl a gafodd eu gwahodd, gan ddefnyddio adnodau 1 a 2.**




Yn ystod gwledd y briodas, aeth rhywbeth o’i le. Gwelodd Mair beth oedd yn digwydd. Roedd hi’n gwybod y gallai Iesu helpu.

3

**C Ysgrifennwch yn y swigod siarad beth ddywedodd Mair a rhoddwch rifau’r adnodau yn y bylchau.**



Mair yn dweud wrth Iesu beth yw’r broblem.
Adnod . . .

Mair yn dweud wrth y gwasanaethyddion beth i’w wneud.
Adnod . . .

4

Roedd Mair yn gwybod y byddai popeth yn iawn pe bai'r gwasanaethyddion (y bobl oedd yn gweini yn y briodas) yn gwneud beth roedd Iesu'n ei ddweud wrthynt. Mae'n rhaid i ninnau hefyd ddysgu bod yn ufudd i Iesu.

**C** **Rhowch √ neu ✕ i ddangos a yw'r brawddegau isod yn gywir neu'n anghywir.**

4

| | |
|---|---|
| Roedd yno chwech o lestri dŵr mawr. | ........ |
| Roedd y llestri dŵr wedi'u gwneud o wydr. | ........ |
| Dywedodd Iesu am roi dŵr yn y llestri nes eu bod yn hanner llawn. | ........ |
| Pan yfodd llywydd y wledd y dŵr, roedd wedi troi'n win. | ........ |

Roedd llywydd y wledd yn synnu a rhyfeddu. Roedd rhywbeth rhyfedd iawn wedi digwydd yn y briodas hon.

**C** **Edrychwch ar adnod 10 a llenwi'r bylchau isod i ddangos y gwahaniaeth rhwng y ddau. Defnyddiwch y geiriau 'gwin da' a 'gwin salach'.**







4

Dyna ddiwedd hapus i'r diwrnod. Roedd yn ddiwrnod arbennig iawn gan fod yr Arglwydd Iesu yno. Roedd y gweision yn gwybod o ble y daeth y gwin a, chyn hir, mae'n siwr bod pawb yn y briodas yn gwybod y gyfrinach. Trwy droi'r dŵr yn win, rhoddodd Iesu arwydd i'r bobl i'w helpu nhw i ddeall pwy ydyw Ef mewn gwirionedd.

# YSGOL EIRIAU

Llanwch yr Ysgol Eiriau:

1. Lle'r oedd Iesu? _ _ _ _ , Galilea?
2. Beth oedd yn digwydd yno?
3. Trodd Iesu'r dŵr yn _ _ _.
4. Hon oedd gwyrth _ _ _ _ _ _ Iesu.
5. Pwy gredodd ynddo?
   Ei __ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | A | | | | | | | | | |
| 2 | | R | | | | | | | | | |
| | 3 | W | | | | | | | | | |
| 4 | | Y | | | | | | | | | |
| | 5 | DD | | | | | | | | | |

4

Mae holl wyrthiau'r Arglwydd Iesu'n 'arwyddion' i ddangos ei fod yn Fab Duw.
(Darllenwch yr Adnod Allweddol).

cyfanswm

CYFRES B1

# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Enw



DARLLENWCH
Ioan 4: 43-54



ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 4: 50

## Gwers 2 Gwyrthiau - Iacháu'r Bachgen

Aeth y newyddion am wyrth gyntaf Iesu ar led fel tân gwyllt. Yn fuan wedyn, aeth Iesu i Jwdea ar gyfer Gŵyl y Pasg. Roedd pobl eraill o Galilea yn y Wledd hefyd a gwelsant Iesu'n gwneud rhagor o wyrthiau yno. Mae'r wers hon yn sôn am ddyn pwysig yng Ngalilea a oedd wedi clywed am y gwyrthiau hynny. Roedd ganddo broblem ac Iesu oedd yr unig un a allai ei helpu.






3

**C Nodwch enwau'r tri lle a enwir yn y Darlleniad o'r Beibl ar y map.**

**C Tynnwch linell syth i ddiwedd pob brawddeg.**

| | |
|---|---|
| Roedd Iesu wedi dod yn ôl | yn sâl iawn. |
| Roedd tad y bachgen yn byw | i Gana. |
| Roedd y bachgen | yng Nghapernaum. |

3

**C Yn eich GEIRIAU EICH HUNAN, ysgrifennwch beth a wnaeth tad y bachgen am ei broblem.**

2

Roedd Capernaum tua 20 milltir o Gana, Galilea. A allai'r Arglwydd Iesu wneud unrhyw beth ag yntau mor bell oddi wrth y bachgen sâl?

**Q Beth ddywedodd Iesu wrth y dyn? Tanlinellwch yr ateb cywir:**

"Rwy'n rhy brysur i'ch helpu chi."

"Mae'n rhy bell i mi fynd yno."

"Dos adref. Y mae dy fab yn fyw."

"Mae'n rhy hwyr i wneud dim yn awr."

1

**C Ysgrifennwch ail ran yr Adnod Allweddol sy'n dweud beth a wnaeth y dyn nesaf.** 2

| |
|---|
| |
| |




**C Rhowch lythrennau'r geiriau yn y drefn gywir i gwblhau'r brawddegau isod:-**

Ar y ffordd adref, daeth _ _ _ _ _ _ _ _ _ y swyddog i'w gyfarfod. (w o s i g i e n)

Roedd ganddynt _ _ _ _ _ _ _ _ _ da iddo. (e dd i n y n w o)

Roedd y _ _ _ _ _ _ _ yn fyw. (n ch g a b e) 5

Roedd y _ _ _ _ _ _ wedi ei adael. (m w y d y n)

Roedd hyn wedi digwydd _ _ _ . (o dd e)

**C Rhowch y bys awr ar y cloc i ddangos faint o'r gloch y bu i'r bachgen droi ar wella.**



**C Rhowch y bys awr ar y cloc i ddangos faint o'r gloch y gwnaeth Iesu'r addewid i dad y bachgen.** 2



**C Rhowch gylch o gwmpas y gair sy'n disgrifio sut roedd y dyn yn teimlo.** 1

pryderus siomedig hapus blin

**C Beth wnaeth y dyn wedyn?** 1

C _ _ _ _ _ _ (Adnod 53)

---

Dyna falch oedd y dyn ei fod wedi ymddiried yn Iesu ac ufuddhau iddo! Roedd yr Arglwydd Iesu wedi gwella ei fab a nawr roedd y dyn yn credu ynddo â'i holl galon. Mae'r Arglwydd Iesu eisiau i bawb ohonom ymddiried ynddo ac ufuddhau iddo. Pan fyddwn ni'n ymddiried yn ei addewid i roi bywyd tragwyddol i ni, byddwn ninnau hefyd yn gweld pa mor ardderchog yw Ef.

---

***"Addo wnaf i ti, fy Nuw,***
***Rodio'n ufudd tra bwyf byw."***

**cyfanswm**

Enw



DARLLENWCH
Marc 10: 46-52



ADNOD ALLWEDDOL
Marc 10: 52

## Gwyrthiau – Dyn Dall yn Gweld



Roedd ysgol Ben a Beca yn casglu arian i hyfforddi ci tywys ar gyfer dyn dall yn yr ardal. Byddai'r ci yn gallu helpu Mr Jones ar ei ffordd i'r gwaith a'i arwain i'r siopau a llefydd eraill. Nid yw'n hawdd bod yn ddall yn ein hoes ni ond mae llawer o bethau'n cael eu gwneud i helpu pobl ddall heddiw. Roedd hi'n wahanol iawn yn nyddiau Iesu.

# CROESAIR

**Dyma groesair am y dyn dall yn y Darlleniad o'r Beibl.**



Cliwiau i lawr

1. Digwyddodd y wyrth y tu allan i _ _ _ _ _ _ _.

4. Pwy oedd gyda Iesu a'i ddisgyblion?

Cliwiau ar draws

2. Beth oedd enw tad Bartimeus?

3. Sut oedd Bartimeus yn cael arian?



5. Roedd Bartimeus yn eistedd ar ochr y _ _ _ _.

5

Doedd Bartimeus ddim yn gallu gweithio am ei fod yn ddall. Roedd yn gallu clywed sŵn y dyrfa o'i gwmpas ac, yn fuan iawn, deallodd pam yr oedd yr holl bobl wedi dod yno. Roeddent wedi dod i weld yr Arglwydd Iesu!

**I ddangos beth a ddigwyddodd nesaf, rhowch y brawddegau hyn yn y drefn gywir trwy roi'r rhifau 1 - 4 yn y blychau. WEDYN ysgrifennwch ar y llinellau dotiog beth yw rhifau'r adnodau lle mae'r brawddegau i'w gweld.**

Dywedodd pobl yn y dyrfa wrtho am fod yn dawel, ond gwaeddodd yn uwch. Adnod ......

Gofynnodd Iesu i bobl ddweud wrth Bartimeus ei fod eisiau ei weld. Adnod ......

8

Taflodd ei got i ffwrdd a dod at Iesu.   Adnod ......

Dechreuodd Bartimeus weiddi “Iesu, Fab Dafydd, trugarha wrthyf.”  Adnod ......

**Q Darllenwch adnod 51 a nodi’r cwestiwn a ofynnodd Iesu a’r ateb a roddodd Bartimeus.**

Gofynnodd Iesu:




2

Atebodd Bartimeus:

Roedd Iesu’n falch o weld bod Bartimeus mor benderfynol o ddod ato.  Roedd ei ateb yn profi

2



1

bod Bartimeus yn credu go iawn y gallai Iesu roi ei olwg iddo.

**Q Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

Yn sydyn, roedd Bartimeus yn gallu gweld!

2

**Q Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i chi gael gweld pam y rhoddodd Iesu ei olwg i Bartimeus.**

Roedd ganddo DDYFF __ _ __

yn yr Arglwydd Iesu..

**cyfanswm**

Enw



DARLLENWCH
Luc 17: 11-19



ADNOD ALLWEDDOL
Salm 107: 8

Mae arnom ni, fel Bartimeus, angen yr Arglwydd Iesu.
Wrth i ni roi ein ffydd ynddo fe, mae'n bwysig i ni wneud yr un peth â Bartimeus..

**Q Defnyddiwch y cod i ddangos beth oedd hyn.** (a = 1, b = 2, c = 3, ch = 4 etc)

5/13/14/28/17 13/7/23/26

_ _ _ _ _ _ _ _ _

# Gwyrthiau – Iacháu Deg o Wahangleifion

Rwy'n siwr eich bod chi wedi teimlo'n sâl fel Beca rhyw dro! Doedd dim hwyl arnoch a roedd yn rhaid i chi aros yn y gwely. Yn waeth na dim, doedd eich ffrindiau ddim yn cael dod i'ch gweld rhag ofn iddyn nhw fynd yn sâl hefyd!!

**Dilynwch y llinell o wely Beca i weld beth oedd yn ei gwneud hi'n sâl.**






Daeth y doctor i weld Beca a, cyn hir, roedd hi'n well eto.
Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn sôn am ddynion oedd yn dioddef o salwch oedd yn anodd iawn ei wella. Ychydig iawn o bobl oedd yn gwella o'r gwahanglwyf. Roedd ganddynt glwyfau ar eu dwylo a'u traed a doedden nhw ddim yn cael byw gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau rhag ofn i rywun arall ddal y gwahanglwyf. Roedden nhw'n gorfod byw y tu allan i'r pentrefi a'r trefi. Ond roedden nhw wedi clywed am Iesu. Un diwrnod, fe welson nhw Iesu'n dod ac roedden nhw'n credu y gallai eu helpu nhw.

**C Gorffennwch y llun trwy dynnu lluniau'r nifer iawn o ddynion ac ysgrifennu beth wnaethon nhw ei weiddi?**

4

1

2

  

3

4

**C Dywedodd Iesu wrthynt am fynd i'w dangos eu hunain i rywun. I bwy? Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.**



Doctor
Offeiriaid
Y Maer Y
Brenin

1

Yn amser Iesu Grist, yr unig bryd yr oedd gwahangleifion yn gorfod gwneud hyn oedd ar ôl iddyn nhw wella, er mwyn cael caniatâd i fynd yn ôl at eu teulu. Yma, roedd Iesu'n gofyn iddyn nhw wneud hynny er bod yr afiechyd yn dal ar eu cyrff.

3

**C Beth ddigwyddodd yn syth ar ôl iddyn nhw ufuddhau i'r Arglwydd Iesu?**

**C Ysgrifennwch y geiriau cywir o dan bob llun.**

**Wedi anghofio** **Wedi dod yn ôl** **Wedi cael eu gwella**

**C Llanwch y geiriau coll o adnodau 15 ac 16 sy'n dweud wrthym bod y dyn a ddaeth yn ôl yn diolch i Dduw o waelod ei galon.**

2

**cyfanswm**

adnod 15 Dychwelodd gan _ _ _ _ _ _ _ _ _ Duw â llais _ _ _ _ _.

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

SAFON 3 B2

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120